



Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o www.freebibleimages.org ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

Disgrifiad

Llun

Nodiadau

Luc 15: 11-32



- 1 Roedd y dynion oedd yn casglu trethi i Rufain a phobl eraill oedd yn cael eu hystyried yn 'bechaduriaid' yn casglu o gwmpas Iesu i wrando arno. Ond roedd y Phariseaidd a'r arbenigwyr yn y Gyfraith yn cwyno a mwmblan, "Mae'r dyn yma'n rhoi croeso i bobl sy'n 'bechaduriaid'!"



- 2 Felly dyma Iesu'n dweud y stori yma wrthyn nhw: "Roedd rhyw ddyn a dau fab ganddo. Dyma'r mab ifancaf yn mynd at ei dad a dweud, 'Dad, dw i eisiau i ti roi fy siâr i o'r ystâd i mi nawr.' Felly dyma'r tad yn cytuno i rannu popeth oedd ganddo rhwng y ddau fab."



- 3 "Yn fuan wedyn, dyma'r mab ifancaf yn gwerthu'r cwbl lot, gadael cartref a theithio i wlad bell."



-
- 4 "Am fod ganddo lawer o arian i wario fe wnaeth lawer o ffrindiau newydd."



-
- 5 "Yno gwastraffodd ei arian ar fyw yn hunanol..."



-
- 6 ".....ac ar fyw bywyd gwyllt."



-
- 7 "Ar ôl iddo golli'r cwbl o'i arian bu newyn difrifol drwy'r wlad, ac roedd yn dechrau llwgu."



-
- 8 "Doedd dim un o'i 'ffrindiau' eisiau ei nabod."



-
- 9 "Llwyddodd i berswadio rhywun i roi gwaith iddo, a chafodd ei anfon allan i'r caeau i ofalu am foch. Aeth pethau mor ddrwg nes ei fod yn cael ei dentio i fwyta peth o'r bwyd moch! Doedd neb yn rhoi dim arall iddo."



-
- 10 "Calliodd o'r diwedd, ac meddai 'Beth dw i'n ei wneud yn y fan yma yn llwgu i farwolaeth? Mae dad yn cyflogi gweithwyr, ac mae ganddyn nhw ddigonedd o fwyd.' "



-
- 11 'Af i adre at dad, a dweud wrtho: Dad, dw i wedi pechu yn erbyn Duw ac yn dy erbyn di. Dw i ddim yn haeddu cael fy ngalw'n fab i ti ddim mwy. Gad i mi fod yn un o'r gweithwyr sy'n cael eu cyflogi gen ti.'



-
- 12 "Felly i ffwrdd ag e yn ôl adre. Gwelodd ei dad e'n dod pan oedd yn dal yn bell i ffwrdd. Roedd ei dad wedi cynhyrfu, a rheddodd at ei fab, a'i gofleidio a'i gusanu."



-
- 13 "A dyma'r mab yn dweud wrtho, 'Dad, dw i wedi pechu yn erbyn Duw ac yn dy erbyn di. Dw i ddim yn haeddu cael fy ngalw'n fab i ti ddim mwy.'"



-
- 14 Ond dwedodd y tad wrth y gweision, 'Brysiwch! Ewch i nôl mantell iddo ei gwisgo — yr un orau! Rhowch fodrwy ar ei fys a sandalau ar ei draed. Yna ewch i ladd y llo sydd wedi cael ei besgi, i ni gael parti! Roedd fy mab i wedi marw, ond mae wedi dod yn ôl yn fyw; roedd e ar goll, ond dŷn ni wedi ei gael yn ôl.'



-
- 15 "Tra oedd hyn i gyd yn digwydd roedd y mab hynaf allan yn gweithio yn y caeau. Wrth ddod yn ôl at y tŷ roedd yn clywed sŵn cerddoriaeth a dawnsio. Galwodd fachgen ifanc ato, a gofyn iddo beth oedd yn digwydd. 'Mae dy frawd yma!' meddai hwnnw, 'Mae dy dad wedi lladd y llo oedd wedi ei besgi i ddathlu ei fod wedi ei gael yn ôl yn saff.' "
- "Ond dyma'r mab hynaf yn digio, a gwrthod mynd i mewn."



-
- 16 "Felly dyma'i dad yn dod allan a chrefu arno i fynd i mewn. Ond meddai wrth ei dad, 'Edrych! Dw i wedi slafio ar hyd y blynyddoedd yma, heb erioed wrthod gwneud unrhyw beth i ti.'



-
- 17 'Ches i erioed barti gyda fy ffrindiau! Ond dyma hwn yn dod adre — y mab yma sydd gen ti — yr un sydd wedi gwastraffu dy arian di i gyd. O! mae'n rhaid i ti ladd y llo sydd wedi ei besgi i hwn!'



18 Machgen i, meddai'r tad wrtho, 'rwyf ti yma bob amser, a ti sydd biau popeth sydd gen i ar ôl. Ond roedd rhaid i ni ddathlu — roedd dy frawd wedi marw, ond mae wedi dod yn ôl yn fyw; roedd e ar goll, ond dŷn ni wedi ei gael yn ôl!’”



19



These illustrations are the copyright of Sweet Publishing and licensed by FreeBibleImages for free download under the terms of the Creative Commons Attribution-ShareAlike 3.0 unported license.

www.freebibleimages.org
